# Adroddiad Arolygu ar

**Tan yr Allt House Ltd**

**Tan yr Allt House Ltd**
**16 Tyle Alltwen**
**Pontardawe**
**Abertawe**
**SA8 3AB**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

**This report is also available in English**

## Dyddiad y cwblhawyd yr arolygiad

17 Rhagfyr 2021

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2021.***

*Gallwch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sy'n ymddangos yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn rhad ac am ddim, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld Trwydded Agored y Llywodraeth ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at:psi@nationalarchives.gsi.gov.uk <mailto:psi@nationalarchives.gsi.gov.uk>*

*Rhaid ichi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Ynglŷn â Tan yr Allt House Ltd

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Oedolion Gyda Nyrsio |
| Darparwr cofrestredig | Tan yr Allt House Ltd |
| Lleoedd cofrestredig | 16 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy iaith |
| Arolygiad blaenorol gan Arolygiaeth Gofal Cymru | 28 Medi 2021 |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r cynnig rhagweithiol o ran y Gymraeg? | Gan fod hwn yn arolygiad â ffocws, nid ydym wedi ystyried hyn yn llawn. |

## Crynodeb

Roedd hwn yn arolygiad â ffocws a oedd yn archwilio ansawdd y gofal a'r cymorth yr oedd pobl yn eu cael a sut mae'n cael effaith ar eu llesiant. Gwelsom welliant sylweddol mewn perthynas â mesurau rheoli heintiau yn y gwasanaeth. Mae hyn yn cynnwys staff yn gwisgo cyfarpar diogelu personol priodol yn gywir ac yn ddiogel. Mae'r cartref yn lân ac mae trefniadau glanhau trwyadl rheolaidd ar waith i gynnal hyn. Mae'r amgylchedd wedi'i gynnal a'i gadw'n dda, yn ddiogel ac yn gartrefol. Mae yna bolisïau a gweithdrefnau eglur sy'n cael eu hadolygu'n rheolaidd i weithwyr gofal eu dilyn. Mae'r rhain yn cael eu cyfathrebu'n eglur i staff gofal gan reolwyr a'r unigolyn cyfrifol. Mae yna lefelau staffio da yn y gwasanaeth. Mae mesurau cadarn ar waith ynglŷn ag ymwelwyr i'r gwasanaeth a rheoli heintiau.

## Llesiant

Yn dilyn arolygiad â ffocws a gwblhawyd fis Medi diwethaf, gwnaethom ddyroddi hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth. Roedd hyn mewn perthynas â'r gwasanaeth yn peidio â chymryd mesurau rheoli heintiau digonol ynghylch lledaeniad Covid 19 yn y cartref a'r effaith ddilynol ar bobl. Gwelsom welliant sylweddol yn yr arolygiad hwn.  Gwelwyd bod yr holl staff gofal yn gwisgo cyfarpar diogelu personol yn briodol ac yn ddiogel, gan gynnwys gwisgo masgiau dros y trwyn a'r geg. Ar hyn o bryd nid oes unrhyw bobl na staff yn y gwasanaeth sydd â chanlyniadau profion Covid 19 positif. Nid oes gan y gwasanaeth statws digwyddiad Covid 19 bellach. Mae'r unigolyn cyfrifol wedi dosbarthu nodiadau atgoffa i'r holl staff gofal ers yr arolygiad diwethaf yn pwysleisio pwysigrwydd cadw at reoleiddio arferion da ynghylch defnyddio cyfarpar diogelu personol yn gywir, a'r angen i hysbysu rheolwyr pe baent wedi bod mewn cysylltiad ag unrhyw un sydd wedi derbyn canlyniad prawf Covid 19 positif. Bydd hyn yn golygu y gellir cwblhau asesiad risg.

Gwelsom ryngweithio cadarnhaol iawn rhwng y bobl a’r staff gofal yn ystod yr arolygiad. Dywedodd y bobl y gwnaethom siarad â nhw yn ystod yr arolygiad wrthym eu bod yn hapus ac yn derbyn gofal da. Mae lefelau priodol o staff gofal i ddiwallu anghenion y bobl sy'n byw yn y gwasanaeth. Mae gan y gwasanaeth weithdrefnau rheoli heintiau da ar waith gan gynnwys glanhau trwyadl yn rheolaidd, stociau da o gyfarpar diogelu personol, profi Covid 19 ar gyfer staff a threfniadau ymweld.

Mae’r bobl yn derbyn gofal a chymorth mewn amgylchedd diogel sy'n cael ei gynnal a'i gadw'n dda. Gwelsom fod gwiriadau iechyd a diogelwch yn cael eu cwblhau fel mater o drefn yn y gwasanaeth a'u bod yn unol â gofynion rheoliadol. Mae yna drefniadau cadarn ar gyfer rhoi meddyginiaeth a’i storio’n ddiogel. Mae cynhyrchion glanhau yn cael eu storio'n ddiogel ac yn unol â'r rheoliadau cyfredol.

## Gofal a Chymorth

Gan fod hwn yn arolygiad â ffocws, nid ydym wedi ystyried y thema hon yn llawn. Fodd bynnag, gwnaethom yr arsylwadau canlynol ynghylch yr amgylchedd a ddarperir yn y gwasanaeth:

Fis Medi diwethaf, gwelsom dystiolaeth nad oedd y gwasanaeth yn dilyn gweithdrefnau rheoli heintiau Covid 19 cywir, gan roi iechyd a llesiant pobl mewn perygl. Gwnaethom ddyroddi hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth yn gofyn i'r darparwr weithredu ar unwaith. Yn ystod yr arolygiad hwn, gwelsom fod staff yn dilyn y gweithdrefnau rheoli heintiau cywir. Gwelsom yr holl weithwyr gofal yn gwisgo cyfarpar diogelu personol priodol gan gynnwys masgiau wedi'u gwisgo'n gywir ac yn ddiogel. Nid oes gan y gwasanaeth statws digwyddiad Covid 19 bellach ac fe'n hysbyswyd gan Profi, Olrhain, Diogelu nad oes unrhyw achosion Covid 19 positif gan bobl na staff ar hyn o bryd. Mae'r gwasanaeth yn parhau i fod â pholisïau a gweithdrefnau cadarn a thrylwyr ar waith mewn perthynas â rheoli heintiau a COVID-19. Mae'r rhain yn cael eu hadolygu a'u diweddaru'n rheolaidd. Mae'r gwasanaeth yn parhau i gwblhau profion Covid 19 ar gyfer yr holl staff gofal ac yn rheoli ymwelwyr yn unol â'r canllawiau cyfredol. Ers yr arolygiad diwethaf, mae'r unigolyn cyfrifol wedi ysgrifennu at yr holl staff gofal yn manylu ar bwysigrwydd gwisgo cyfarpar diogelu personol yn briodol. Mae hyn hefyd yn cynnwys hysbysu rheolwyr os ydynt wedi bod mewn cysylltiad ag unrhyw un sydd wedi derbyn prawf Covid 19 positif. Mae hyn er mwyn sicrhau bod yr asesiad risg cywir yn cael ei gwblhau mewn perthynas â'r gweithle. Cadarnhaodd staff gofal y gwnaethom siarad â hwy yn ystod yr arolygiad eu bod yn deall pwysigrwydd rheoli heintiau yn dda a gwisgo cyfarpar diogelu personol priodol yn ddiogel ac yn gywir. Mae'r holl staff sy'n gweithio yn y gwasanaeth yn cael eu profi'n rheolaidd ar gyfer Covid 19 yn unol â'r canllawiau cyfredol.

Gwelsom ryngweithiadau cadarnhaol, gofalgar a theimladwy rhwng gweithwyr gofal a phobl trwy gydol yr arolygiad. Gwelsom feddyginiaeth yn cael ei rhoi a gwelsom fod hyn yn cael ei gwblhau'n gywir ac yn ddiogel. Gwelsom fod cofnodion rhoi meddyginiaeth yn cael eu cwblhau'n briodol.

## Yr Amgylchedd

Gan fod hwn yn arolygiad â ffocws, nid ydym wedi ystyried y thema hon yn llawn. Fodd bynnag, gwnaethom yr arsylwadau canlynol ynghylch yr amgylchedd a ddarperir yn y gwasanaeth:

Roedd pob rhan o'r gwasanaeth yn ymddangos yn lân ac yn glir. Gwnaethom edrych ar yr holl ardaloedd cymunol sydd mewn cyflwr da ac wedi'u cynnal a'u cadw'n dda. Fe'n hysbyswyd gan weithiwr domestig bod yr holl ardaloedd cymunol yn cael eu glanhau'n drwyadl dair gwaith y dydd, saith diwrnod yr wythnos. Mae ystafelloedd gwely yn cael eu glanhau bob dydd a'u glanhau'n drwyadl bob wythnos. Gwnaethom wirio tystysgrifau diogelwch ar gyfer yr adeilad a gweld eu bod yn gyfredol ac yn unol â'r canllawiau. Mae hyn yn cynnwys diogelwch nwy, profion dyfeisiau cludadwy, diffoddwyr tân, larymau a gadael mewn argyfwng. Gwelsom fod stoc dda o gyfarpar diogelu personol a bod cynhyrchion glanhau yn cael eu storio yn unol â'r rheoliadau rheoli sylweddau peryglus i iechyd. Mae gweithdrefnau rheoli heintiau cadarn ar waith mewn perthynas ag ymwelwyr. Gofynnwyd i ni ddangos tystiolaeth o brawf llif unffordd negyddol, cymryd ein tymheredd, gwisgo masg a llofnodi'r llyfr mewngofnodi wrth gyrraedd y gwasanaeth. Gwelsom staff gofal yn newid eu cyfarpar diogelu personol ac yn cael gwared arno mewn biniau â chaeadau a oedd ar wahân o amgylch y gwasanaeth.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Gan fod hwn yn arolygiad â ffocws, nid ydym wedi ystyried y thema hon yn llawn. Fodd bynnag, gwnaethom yr arsylwadau canlynol ynghylch yr arweinyddiaeth a'r rheolaeth a ddarperir yn y gwasanaeth:

Fe'n hysbyswyd bod y gwasanaeth yn y broses o recriwtio ar gyfer rheolwr penodol amser llawn ar hyn o bryd. Ar hyn o bryd mae'r rheolwr hefyd yn rheoli gwasanaeth cyfagos arall ynghyd â dirprwy reolwr. Gwelsom fod gan y gwasanaeth drefniadau staffio priodol a diogel ar waith gan gynnwys nyrs arweiniol ar ddyletswydd. Dywedodd yr holl staff gofal wrthym fod cefnogaeth dda gan reolwyr ar hyn o bryd a'u bod yn cael gwybod yn rheolaidd am unrhyw ddiweddariadau neu newidiadau. Gwelsom wybodaeth hyfforddiant sy'n dangos bod gan weithwyr gofal yr hyfforddiant diweddaraf ynghylch diogelu, symud a thrin, a rheoli heintiau. Gwelsom hefyd drefniadau hyfforddi manwl a thrylwyr. Roedd y rhain yn atgyfnerthu pwysigrwydd rheoli heintiau yn dda, defnydd priodol o gyfarpar diogelu personol ac ymolchi dwylo yn rheolaidd. Darparodd y dirprwy reolwr gopïau o'r nodiadau atgoffa staff a anfonwyd at yr holl staff gofal gan yr unigolyn cyfrifol ers yr arolygiad diwethaf. Mae'r rhain yn rhoi cyfarwyddyd manwl i staff gofal ynghylch pwysigrwydd defnyddio cyfarpar diogelu personol yn briodol ac yn ddiogel.

| Crynodeb o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd y diffyg cydymffurfio hwn yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chyflawnwyd. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfedd yn y dyfodol a bydd yn cael ei brofi yn yr arolygiad nesaf. |
| **Ni chyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac fe’i cyflawnwyd. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan fo canlyniadau gwael ar gyfer pobl, a/neu risg i lesiant pobl, yn cael eu nodi drwy ddyroddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau brys i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Pan fydd darparwyr yn methu â chymryd camau blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, mae'n bosibl y byddwn yn uwchgyfeirio'r mater i Banel Gwelliant a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Amherthnasol | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn. | Amherthnasol |
| 56 | Nid yw'r holl staff yn dilyn canllawiau cyfarpar diogelu personol neu reoli heintiau COVID-19, gan gynnwys gwisgo masgiau yn gywir. | Cyflawnwyd |

Pan fyddwn yn dod o hyd i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond ni nodir unrhyw risg uniongyrchol neu sylweddol ar gyfer pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn amlygu'r rhain fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl y bydd y darparwr yn cymryd camau i gywiro hyn a byddwn yn mynd ar drywydd y camau hyn yn yr arolygiad nesaf. Pan fo'r darparwr wedi methu gwneud y

gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy ddyroddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| **Maes/Meysydd i'w Gwella** | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Amherthnasol | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn. | Amherthnasol |

**Dyddiad cyhoeddi** 25/01/2022'